

COFNODION BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR A GYNHALIWYD AR 27 MEHEFIN 2019

YSTAFELL BWYLLGOR, SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Allwedd i flaenlythrennau:

DG - Cyfarwyddwr Cyffredinol

DFCR - Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol

DLE - Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu

HPPA - Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus

DGVE - Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd

MS - Ysgrifennydd yr Amgueddfa

Rhif agenda	Nodiadau	Camau gweithredu
	<p>YN BRESENNOL: Roger Lewis (yn y Gadair), Carol Bell (Is-Lywydd), Hywel John (Trysorydd), Carys Howell, Catherine Duigan, Glenda Jones, Gwyneth Hayward, Hywel Ceri Jones, Kay Andrews, Maria Battle, Michael Prior, Rachel Hughes, Rob Humphreys, Robert Pickard, David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad Ymwelwyr; Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysgu ac Ymgysylltu; Heledd Fychan, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>YN BRESENNOL: Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu; Paul Twamley, Cadeirydd y Bwrdd Datblygu; Lesley-Anne Kerr, Pennaeth y Tîm Datblygu Amgueddfeydd, MALD.</p>	
	<p>DATGANIAD O FUDD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Catherine Duigan - wedi'i secondio fel aelod o'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. • Carol Bell - wedi'i phenodi'n Ymddiriedolwr Cymdeithas Bêl-droed Cymru. • Rob Humphreys - wedi'i benodi'n Ymddiriedolwr y British Council. • Hywel Ceri Jones - aelod o Grŵp Cynghori ar Ewrop, Llywodraeth Cymru. • Hywel John - wedi'i benodi'n Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. 	
	<p>Yn Sesiwn Gaedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod y canlynol: Croeso a chyflwyno'r Llywydd; Astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Amgueddfa Chwaraeon i Gymru ac Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol; Sganio'r Gorwel; Tŷ Turner; Cymeradwyo benthyciadau rhyngwladol.</p> <p>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.</p>	
1	<p>CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>Croesawodd Roger Lewis, y Llywydd newydd, bawb i'r cyfarfod. Roedd yr Ymddiriedolwyr newydd, Maria Battle, Gwyneth Hayward a Rob Humphreys yn bresennol. Croesawyd y rheiny a oedd yn gwyllo i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jessica Seaton a Madeleine Havard.</p>	
2	<p>COFNODION</p>	

	<u>Penderfynwyd</u> : Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth 2019.	
3	<p>MATERION YN CODI</p> <p>3.5.1.7 Casgliadau ac Ymchwil Colocwiwm y Gweinidog 24 Hydref 2019 gyda phrifysgolion a rhanddeiliaid ar gyfer cyflwyniad cyhoeddus y Strategaeth Ymchwil - nododd y Bwrdd fod alinio ymchwil â Gweledigaeth yr Amgueddfa, fel ym mhob maes arall, yn allweddol. Mae gan yr Amgueddfa god Moeseg Ymchwil ac mae'n bwysig bod y strategaeth ymchwil wedi alinio â'r cod hwn cyn cyhoeddi'r strategaeth.</p> <p>3.6.1.5 Egwyddorion yw'r sylfaen i benderfyniadau ynghylch rhaglennu Mae grŵp trawsgyfadrannol yn gweithio ar draws pob maes a gweithgaredd rhaglennu i sefydlu'r egwyddorion hyn.</p> <p>3.9.1.6 Pwyllgor Cyngori ar Ymchwil Mae Cod egwyddorion moesegol a pholisi ar gyfer ymchwil a wneir gan ymchwilwyr yn Amgueddfa Cymru ar wefan yr Amgueddfa.</p>	
4	<p>STRATEGAETH, POLISI A CHYNLLUNIO</p> <p>1. ADOLYGIAD THURLEY</p> <p>1.1. Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu fod y Strategaeth Sgiliau wedi'i chymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Amgueddfa yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu Manyleb ar gyfer ymchwil ac archwiliad y Bartneriaeth Cymru Hanesyddol - Sgiliau. Diweddarodd Glenda Jones y Bwrdd ar y pedwerydd cyfarfod rhwng yr Amgueddfa a'r Undebau. Canolbwyntiodd y cyfarfod diwethaf ym mis Mawrth ar swydd y Cyfarwyddwr Masnachol, penodi Ymddiriedolwyr newydd, a sefyllfa ariannol yr Amgueddfa. Adroddodd Glenda fod yr Undebau am ddiolch i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol am ei gefnogaeth i'r staff. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol, a'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu am eu cyfraniadau eu hunain.</p> <p>1.2. Cyfarwyddwr Masnachol Roedd yr Amgueddfa wedi siomi nad oedd modd penodi rhywun i'r swydd yn dilyn cyfweiliadau diweddar. Roedd yn hanfodol bod yr Amgueddfa yn sicrhau'r ymgeisydd cywir ar gyfer y rôl.</p> <p>1.3. Amgueddfa Lechi Cymru Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wedi bod yn arwain ar ddatblygu cysyniadau a syniadau ar gyfer ailddatblygu'r Amgueddfa. Nid oedd gan yr Amgueddfa nawdd eto i gefnogi adroddiad dylunio cyflawn, ond roedd hi'n bwysig bod cynlluniau a chostau'n cael eu datblygu. Nododd y Bwrdd fod yr Amgueddfa mewn cysylltiad rheolaidd â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Nododd y Llywydd ei fod wedi penderfynu ymweld ag Amgueddfa Lechi Cymru fel ei ymweliad safle swyddogol cyntaf. Roedd yr Amgueddfa yn gweithio gyda Chyngor Gwynedd yn y lle cyntaf gan mai nhw biau'r tir lle mae'r Amgueddfa yn sefyll.</p> <p>1.4. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chaiff negeseuon eiriolaeth allweddol am Amgueddfa Lechi Cymru eu hanfon at Ymddiriedolwyr. Bydd y Bwrdd yn ystyried Adroddiad Thurley (datblygiad, heriau, camau nesaf a safle'r argymhellion o fewn blaenoriaethau cyflawn</p>	<p>HPPA</p> <p>DG</p> <p>DG</p>

	<p>Gweledigaeth yr Amgueddfa) yn eu cyfarfod ym mis Medi. Bydd y broses chwilio am Gyfarwyddwr Masnachol yn parhau.</p> <p>2. PARTNERIAETH STRATEGOL CYMRU HANESYDDOL</p> <p>2.1. Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y Cyfarwyddwr Datblygu wedi rhoi cyflwyniad ar godi arian yng Nghymru yn y cyfarfod partneriaeth diweddar. Bydd y Cyfarwyddwr Datblygu a Phennaeth Marchnata a Chyfathrebu yn cynnig gweithdai codi arian i'r sector treftadaeth yng Nghymru.</p> <p>3. AMGUEDDFA CHWARAEON / PÊL DROED AC ORIEL GENEDLAETHOL GELF GYFOES</p> <p>3.1. Amgueddfa Chwaraeon / Pêl-droed Adroddwyd: Nododd Lesley-Anne Kerr fod trafodaethau'n parhau.</p> <p>3.2. Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol – Adroddwyd: Byddai cyfarfod pellach yn ystod yr wythnos i symud materion ymlaen. Bod yr Amgueddfa ar hyn o bryd yn benthyg gwaith i Ganolfan Maggie's, Caerdydd.</p> <p>4. CYNNIG SEILWAITH YMCHWIL UKRI</p> <p>4.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>4.2. Adroddwyd: Roedd y cynnig a gyflwynwyd yn edrych ar ba seilwaith sydd ei angen yng Nghymru i gefnogi ymchwil ar lefel rhyngwladol, ac yn arbennig ymgysylltiad cymunedol ac ymchwil gweithredol. Nid oedd y cynnig wedi'i gyflwyno oherwydd y swm uchaf ar gyfer y wobr (nad oedd wedi'i ddiffinio) ond yn hytrach oherwydd y gobaith o greu isadeiledd delfrydol ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru. Nododd y Bwrdd y rôl y gall prifysgolion ei chwarae mewn cynigion o'r fath.</p> <p>5. STRATEGAETH DENG MLYNEDD</p> <p>5.1. Adroddwyd: Mae'r Amgueddfa yn dechrau datblygu strategaeth deng mlynedd, dan arweiniad yr Uwch Dîm Arwain. Nododd y Llywydd fod symud y strategaeth hon ymlaen o fewn telerau ei benodiad.</p> <p>5.2. Penderfynwyd: Bydd y Bwrdd yn ystyried y rhaglen tuag at greu strategaeth deng mlynedd yn eu cyfarfod ym mis Medi.</p> <p>6. UWCHGYNLLUN AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CAERDYDD</p> <p>6.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd.</p> <p>6.2. Adroddwyd: Caiff y broses datblygu briff ar gyfer astudiaeth achos ar gyfer Uwchgynllun ei hariannu gan yr Amgueddfa. Byddai angen nawdd allanol am yr astudiaeth dichonolrwydd ei hun.</p> <p>6.3. Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod cais yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer nawdd am astudiaeth achos parthed creu Uwchgynllun ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p> <p><i>Gadawodd Maria Battle y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	<p>DG</p> <p>DG</p>
5	<p>ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</p> <p>1. CHWARTER 4 ADRODDIAD AR BERFFORMIAD - CYNLLUN GWEITHREDOL</p> <p>1.1. Derbyniwyd: Adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus.</p>	

	<p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y chwarter a'r flwyddyn gyfan wedi bod yn llwyddiant. Roedd pob Dangosydd Perfformiad Allweddol wedi'u cyrraedd gan gynnwys cyflawni niferoedd ymwelwyr uchaf erioed sef 1,887,376; cynnydd o 147% ers cyflwyno mynediad am ddim. Mae'r Amgueddfa'n parhau i fod yn brif ddarparwr addysg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, gan groesawu 208,388 o ddisgyblion a myfyrwyr a 489,185 o ddysgwyr anffurfiol yn ystod y flwyddyn.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu dosbarthu i'r Ymddiriedolwyr.</p> <p>2. Y SEFYLLFA ARIANNOL</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Cyfarwyddwr Datblygu wedi adrodd canlyniadau incwm cadarnhaol nad oedd yn incwm grant dros y ddwy flynedd diwethaf. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol fod yr Amgueddfa wedi derbyn elw o £948,000 gan Mentrau AOCC Cyf. – mae wedi bod yn flwyddyn eithriadol, a tair gwaith y swm a dderbyniodd yr Amgueddfa tair blynedd yn ôl gan weithgaredd masnachol.</p> <p>2.3. Nododd y Trysorydd ddefnydd ac ystadegau cronfeydd yr Amgueddfa a'r lefelau y byddant yn talu am gostau gweithredu yn ystod y blynedd nesaf. Nododd y Llywydd ddibyniaeth yr Amgueddfa ar gefnogaeth Llywodraeth Cymru drwy Gymorth Grant.</p> <p>2.4. Caiff cylchlythyr rhanddeiliaid ei ddsbarthu i wleidyddion cyn y gwyliau haf.</p> <p>2.5. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr adroddiad nesaf yn cynnwys dyddiadau ar gyfer 2020 o fewn tabl Dyddiadur Digwyddiadau Rhanddeiliaid.</p> <p><i>Gadawodd Lesley-Anne Kerr y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	<p>MS</p> <p>HPPA</p>
6	<p>PROJECTAU MAWR</p> <p>1. Y RHAGLEN CYNNAL A CHADW HANFODOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Adeiladau ac Ystadau, a'r Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd cynnydd i gyflawni'r rhaglen o fewn y £6.4 miliwn a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn symud ymlaen ac yn cwrdd â'r targed. Yr her oedd lleddfu amhariaeth ar y rhaglenni cyhoeddus.</p> <p>1.3. Byddai'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn ystyried rhaglen fanwl o gostau a gweithgaredd, a hefyd diweddariad ar ôl-groniad y rhaglen cynnal a chadw. Y Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd oedd yn arwain ar y rhain. Nododd y Bwrdd y costau a'r nawdd sydd ar gael ar gyfer y gwaith lechyd a Diogelwch hanfodol sydd angen ei gwblhau o fewn y pum mlynedd nesaf. Roedd y nawdd cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith ar hyn o bryd yn golygu bod y gwaith atgyweirio angenrheidiol i ystâd gyhoeddus yr Amgueddfa yn digwydd fesul tamaid.</p> <p>1.4. Caiff Cynllun Cadwraeth ei gynnwys o fewn yr Uwchgynllunio ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, o dan arweiniad y Cyfarwyddwr</p>	

	<p>Datblygu Orielau a Phrofiad yr Ymwelydd eto. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog pobl i wneud penderfyniadau hirdymor, a nododd y Bwrdd fod gan yr Amgueddfa ddyletswydd gofal i ddiogelu, cadw a chynnal ei hystâd. Nododd y Bwrdd fod gan Cadw a Llywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn ysgwyddo rhwymedigaethau'r ystâd, ac wrth gefnogi'r Amgueddfa i ddod o hyd i ddatrysiadau. Diweddarwyd Llywodraeth Cymru ym mhob cyfarfod adolygu chwarterol, yn ystod y cyfarfodydd bob chwe mis gyda'r Gweinidog, a thrwy bresenoldeb blynyddol y Cyfarwyddwr Cyffredinol o flaen y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Roedd gan yr Amgueddfa yswiriant atebolrwydd proffesiynol yn ei le i ddiogelu Ymddiriedolwyr.</p> <p>1.5. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nad oedd cyllideb cyfalaf sefydlog wedi bod hyd yn hyn ar gyfer treftadaeth, a bod yr Amgueddfa yn cyfrannu tua £100 miliwn o werth ychwanegol gros i'r economi Cymreig. Roedd yr Amgueddfa yn parhau i wneud cyfraniad gweithredol a chadarnhaol wrth gefnogi cyfrifoldebau statudol Llywodraeth Cymru parthed iechyd ac addysg.</p> <p><i>Gadawodd Rob Humphreys y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></p>	
7	<p>CASGLIADAU AC YMCHWIL</p> <p>1. ADRODDIAD CHWE-MISOL</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Roedd y Bwrdd yn falch o nodi ehangder gweithgaredd, a'r caffaeliadau a rhoddion diweddar. Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bwysigrwydd caffael portread y cyn-Lywydd Elisabeth Elias i'r casgliad.</p> <p>1.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd Gweithredol yn ystyried sut all adroddiadau yn y dyfodol nodi beth sy'n arwyddocaol a beth nad yw'n arwyddocaol o ran caffaeliadau a rhoddion.</p>	DG
8	<p>RHEOLI</p> <p>1. PERTHYNAS RHWNG MENTRAU AOCC CYF. AC AMGUEDDFA CYMRU</p> <p>1.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>1.2. <u>Adroddwyd</u>: Mynychodd y Llywydd gyfarfod diweddar y Cwmni Mentrau. Nododd yr Is-Lywydd fod angen ystyried y pwyntiau a godwyd yn y papur fel rhan o ddarlun ehangach cynhyrchu incwm a gweithgaredd yr Amgueddfa fel cyfanwaith, drwy'r cynllun strategol sydd i'w gyflwyno i Bwyllgor Adolygu Perfformiad yr Amgueddfa ym mis Mai 2020.</p> <p>2. COFNODION DRAFFT O WAHANOL GYFARFODYDD</p> <p>2.1. Pwyllgor Archwilio - Nid oedd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.</p> <p>2.2. Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn – <u>Penderfynwyd</u>: Caiff cofnodion y cyfarfod ar 10 Mehefin eu cyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi. Caiff Carol Bell ei phenodi'n un o Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn.</p> <p>2.3. Pwyllgor Cynghori Celf - Nid oedd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.</p> <p>2.4. Pwyllgor Adolygu Perfformiad - Nid oedd unrhyw sylwadau ar y cofnodion.</p>	MS DFCR
9	DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL	

	<p>1. CYDYMFFURFIO Â SAFONAU'R IAITH GYMRAEG</p> <p>1.1. <u>Adroddwyd</u>: Nododd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu y byddai'r adroddiad blynyddol statudol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ar 11 Gorffennaf 2019. Un llwyddiant allweddol yn yr adroddiad oedd bod 53% o staff yn medru'r Gymraeg i ryw lefel.</p> <p>2. GDPR</p> <p>2.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p> <p>2.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr Amgueddfa yn cydymffurfio ag Egwyddorion bras y Rheoliadau. Nid oedd modd i'r Amgueddfa ddiwallu anghenion darparu datrysiad diogelwch meddalwedd o fewn y terfyn amser o bythefnos o ganlyniad i resymau y tu allan i reolaeth yr Amgueddfa. Roedd naw deg y cant o staff allweddol ac wyth deg y cant o holl staff wedi derbyn hyfforddiant. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau adroddadwy wedi bod yn y chwarter diwethaf.</p> <p>2.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf parthed GDPR yn eu cyfarfod ym mis Medi. Bod pob Ymddiriedolwr yn cael cyfrif e-bost Microsoft Outlook, a chardiau busnes newydd yn cael eu cynhyrchu ar gyfer bob Ymddiriedolwr.</p> <p>3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</p> <p>3.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>3.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod yr Adroddiadau Newidiadau Bach yn amlinellu cynnydd yr Amgueddfa, fel un o'r pedwar deg pedwar o gyrff a enwyd yn y Ddeddf. Cyflwynwyd i swyddfa'r Comisiynydd ym mis Mawrth 2019. Byddai'r Diogelwyr Taith yn cael eu lansio ar 9 Awst 2019 yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Byddai astudiaethau achos a ddarparwyd gan yr Amgueddfa yn cael eu defnyddio yn y lansiad.</p> <p>3.3. <u>Penderfynwyd</u>: Y Bwrdd i ystyried ym mis Medi'r ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>4. CYTUNDEB RHEOLI TŶ TURNER GYDA CHYNGOR TREF PENARTH</p> <p>4.1. <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Amgueddfeydd a'r Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd.</p> <p>4.2. <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi'u diweddarau ar gynnydd ac wedi'u gofyn i gymeradwyo'r cytundeb rheoli.</p> <p>4.3. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd wedi cymeradwyo Cytundeb Rheoli Tŷ Turner gyda Chyngor Tref Penarth.</p>	<p>DFCR MS</p> <p>DLE</p> <p>HM</p>
	<p>UFA</p> <p>Argyfwng Hinsawdd Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bapur yn amlinellu cyfraniadau presennol yr Amgueddfa i ymdrin â newid hinsawdd drwy ei hymchwil, casgliadau, rhaglenni cyhoeddus a'r Cwmni Mentrau. Anogodd yr Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa i ymgysylltu ymhellach â Llywodraeth Cymru, yn arbennig Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, a chyrrff cyhoeddus eraill. Mae gan yr Amgueddfa Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda phrifysgolion a Chyfoeth Naturiol Cymru eisoes ac sy'n cyfeirio at ymdrin â'r argyfwng hinsawdd. Darparodd y targed ar gyfer y Sector Cyhoeddus yng Nghymru i fod yn garbon niwtral erbyn 2030, a Chymru gyfan erbyn 2050, fframwaith i'r Amgueddfa i greu strategaeth hirdymor. Nododd y Bwrdd berthynas gefnogol yr Amgueddfa â Phlatform yr</p>	<p>DG / DLE</p>

	<p>Amgylchedd Cymru. <u>Penderfynwyd</u>: Bod y Bwrdd yn cael gwybodaeth bellach yn eu cyfarfod ym mis Medi ar sut mae'r Amgueddfa yn bwriadu ymateb i Ddatganiad Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru.</p> <p>Brexit Atgoffwyd yr Amgueddfa ei bod hi'n dal yn bosib ymgeisio am nawdd Ewropeaidd a bod cynnydd sylweddol wedi bod mewn nawdd i gefnogi ymateb i'r argyfwng hinsawdd, a'r rhaglen Erasmus hefyd.</p> <p>Hawliau Diwylliannol a Democratiaeth Ddiwylliannol Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y caiff gweithdy ar Hawliau Diwylliannol a Democratiaeth Ddiwylliannol yn y Cenhedloedd Celtaidd ei gynnal ar 9-10 Medi 2019 yn Sain Ffagan. Mae arweinwyr y cwrs yn arweinwyr byd-eang gyda phrofiad o arwain mewn sefydliadau diwylliannol yn Ewrop ac America. Cefnogir y rhaglen gan Raglen Arweiniad Clore a Chymdeithas yr Amgueddfeydd y DU.</p> <p>Cyngerdd Rebecca Evans a'i Ffrindiau Nododd Cadeirydd y Bwrdd Datblygu y byddai'r cyngerdd yn cael ei gynnal yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 12 Medi 2019. Gwahoddwyd yr Ymddiriedolwyr i hyrwyddo'r digwyddiad i'w cysylltiadau.</p> <p>Ymddiriedolaeth Derek Williams Nodwyd cefnogaeth yr Ymddiriedolaeth i gelf gyfoes yng Nghymru, ac am ei pherthynas unigryw â'r Amgueddfa. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a chaiff digwyddiad ei greu gydag Ymddiriedolwyr a Swyddog Gweithredol pob sefydliad i gryfhau'r berthynas ac atgyfnerthu blaenoriaethau cyffredin.</p>	DG
	<p>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf <u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 23 Medi 2019 yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.</p>	